RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
53/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
09/05/2023

# Safbwyntiau'r Cyhoedd ar Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
Rhif Llyfr Safonol Rhyngwladol Digidol 978-1-80535-858-9

Safbwyntiau'r Cyhoedd ar Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Awdur: Rossana Palma, Tîm Ymchwil yr Hinsawdd a'r Amgylchedd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Palma, R. (2023). *Safbwyntiau'r Cyhoedd ar Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron Goresgynnol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad rhif GSR 53/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/barn-y-cyhoedd-am-iechyd-planhigion-rhywogaethau-goresgynnol-estron

Rhai'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Rossana Palma
Is-adran Gwybodaeth Ymchwil Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

## Cynnwys

Rhestr o’r tablau....................................................................................................2
Rhestr o’r ffigurau ....................................................................................................2
Rhestr termau ..........................................................................................................4
1. Cyflwyniad/Cefndir ..........................................................................................5
2. Methodoleg ......................................................................................................8
3. Safbwyntiau ar golli coed a phlanhigion ........................................................12
4. Safbwyntiau ar ddifrod gan rywogaethau estron goresgynnol ........................16
5. Pwysigrwydd mater plâu a chlefydau planhigion a choed ..............................18
6. Pwysigrwydd amddiffyn planhigion/coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau. ......20
7. Ffactorau sy’n risg i iechyd planhigion/coed yng Nghymru..............................21
8. Gwybodaeth, diddordeb a chamau gweithredu a gymerir ar iechyd planhigion ac atal rhywogaethau estron goresgynnol..........................................................24
9. Ymchwilio a chael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed. ...................32
10. Ffactorau sy’n atal cymryd camau i wella iechyd planhigion/coed. ..........................37
11. Adolygu’r Dystiolaeth Bresennol ....................................................................40
12. Casgliadau ......................................................................................................42
13. Adran gyfeirio .................................................................................................46
Atodiad A—B02210_3 - Omnibws Cymru Mawrth ..................................................48

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 2.1: Grwpiau a ddefnyddiwyd ym mhob adran o'r adroddiad lle rhoddwyd ymatebion ar hyd Graddfa Likert saith pwynt. ................................ **Error! Bookmark not defined.**

Tabl 11.1: Termau chwilio a gynhwyswyd wrth adolygu'r dystiolaeth bresennol............**Error! Bookmark not defined.**

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 3.1—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu bod pob effaith oherwydd bod planhigion/coed yn marw neu'n cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau yn eu hardal leol o bwys—pob datganiad ........................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 3.2 —Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu bod pob effaith planhigion/coed yn marw neu'n cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau yn genedlaethol ledled Cymru o bwys—pob datganiad ................................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4.1—Y graddau yr oedd o bwys i'r ymatebwyr a oedd rhywogaethau estron goresgynnol yn achosi difrod i'w hardal leol—pob datganiad... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 5.1—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn meddwl bod mater plâu a chlefydau planhigion/coed yn bwysig ar raddfa ddaearyddol .... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 6.1 —Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig amddiffyn planhigion/coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 7.1—Safbwyntiau ar lefel y risg i iechyd planhigion/coed yng Nghymru o'r ffactorau canlynol—yr holl ffactorau. ....................................... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 8.1—Pa mor aml yr oedd yr ymatebwyr yn dweud yr oedd y datganiadau canlynol yn berthnasol iddynt—pob datganiad............................ **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 8.2—Pa mor aml y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol / gwneud y camau a nodwyd i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol—pob datganiad. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 8.3 —Atebion ymatebwyr ynghylch a ydynt erioed wedi gweithio gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i fonitro am blâu a chlefydau planhigion/coed ... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 8.4—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu y byddai pob mesur bioddiogelwch yn helpu—pob datganiad ............................................. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 9.1—Atebion ymatebwyr ar eu gweithred ynghylch plâu a chlefydau planhigion/coed a ddisgrifir yn y cwestiynau—pob cwestiwn .............. **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 9.2—Atebion ymatebwyr ar a ydynt yn cytuno â'r datganiadau bod gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed yn hawdd eu canfod a/neu eu deall—y ddau ddatganiad ................................................................ **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 10.1—Atebion ymatebwyr ynghylch faint oeddent yn credu yr oedd y ffactorau canlynol yn eu hatal rhag gweithredu i fod o fudd i iechyd planhigion/coed—pob datganiad ................................................................... **Error! Bookmark not defined.**

**Rhestr termau**

| Acronym/Gair allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| INNS | Rhywogaethau Estron Goresgynnol |
| CCC | Pwyllgor Newid Hinsawdd |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Mae Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr (2023–2028)[1] yn nodi cynllun gweithredu a chanlyniadau a ddymunir y mae pob cenedl ym Mhrydain Fawr wedi ymrwymo iddo. Deilliodd y strategaeth o gydweithrediad helaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, cydnabyddiaeth nad yw plâu na chlefydau yn parchu ffiniau cenedlaethol, a'r angen am ymrwymiad ar y cyd i gydgysylltu dull o ymdrin â bioddiogelwch planhigion.

1.2 Nod un canlyniad y strategaeth bioddiogelwch (2023–2028) yw cyflawni "cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion iach", dylid bodloni hyn drwy godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd planhigion a choed iach a thrwy annog mabwysiadu ymddygiad cyfrifol ar draws cymdeithas.

1.3 Planhigion ac anifeiliaid sydd wedi'u cyflwyno gan weithredoedd dynol i rannau o'r byd lle na fyddent i'w cael yn naturiol yw rhywogaethau estron goresgynnol. Fe'u hystyrir ymhlith y pum prif sbardun sy'n arwain at golli bioamrywiaeth yn fyd-eang ac amcangyfrifir eu bod yn costio o leiaf £2 biliwn i economi Prydain bob blwyddyn (Pwyllgor Newid Hinsawdd, 2021). Mae gan rywogaethau estron goresgynnol y gallu i ledaenu gan achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd neu'r ffordd yr ydym yn byw.

1.4 Mae nifer y rhywogaethau estron goresgynnol ym Mhrydain yn parhau i gynyddu. Yn 2021, roedd oddeutu 2,000 o rywogaethau estron goresgynnol wedi'u sefydlu yn y DU, a sefydlir 10–12 o rywogaethau estron goresgynnol newydd bob blwyddyn. Adlewyrchir y duedd hon yn fyd-eang ac, os na fydd yn cael sylw digonol, bydd y niferoedd yn parhau i gynyddu yn ystod y dyfodol rhagweladwy. Tynnodd asesiad o risgiau hinsawdd i'r DU 2021 y Pwyllgor Newid Hinsawdd sylw at rywogaethau estron goresgynnol fel risg blaenoriaeth sy'n wynebu cynefinoedd a rhywogaethau daearol, dŵr croyw, a morol, yn ogystal ag amaethyddiaeth a choedwigaeth. Disgwylir i newid hinsawdd gynyddu'r risg gan lawer o rywogaethau estron goresgynnol nad ydynt yn gallu sefydlu ar hyn o bryd. Bydd cyfuniad o ffactorau, megis gaeafau heb rew a chynnydd mewn digwyddiadau llifogydd, yn cynyddu ystod a digonedd llawer o rywogaethau estron goresgynnol. Gallai cynefinoedd sydd dan straen fod yn

[1] Ar gael yn Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr (2023 i 2028) - ar GOV.UK

fwy agored i oresgyniad a chlefyd hefyd, gan gynyddu'r risg i gynefinoedd naturiol bioamrywiol. Fel risg blaenoriaeth â'r sgôr brys uchaf, mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd wedi argymell y dylid rhoi camau ychwanegol ar waith i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol cyn gynted â phosibl.

*1.5* O ganlyniad i hynny, mae angen rheoli rhywogaethau estron goresgynnol er mwyn lleihau'r risgiau o effeithiau. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen ceisio dileu rhywogaeth yn llwyr, megis y gacynen Asiaidd sy'n ysglyfaethu ar wenyn mêl, neu'r hwyaden goch a oedd yn effeithio ar rywogaethau hwyaid cynhenid. Gall rhaglenni rheoli o'r fath fod yn ddadleuol ac, mewn rhai achosion, fe'u gohiriwyd oherwydd gwrthwynebiad gan grwpiau pwyso. Gall cefnogaeth y cyhoedd fod yn hanfodol i lwyddiant prosiectau o'r fath. Mae rhai rhywogaethau goresgynnol eisoes wedi hen sefydlu ym Mhrydain Fawr a chyda'r rhywogaethau hyn mae'n enwedig o bwysig bod y cyhoedd yn cymryd rhan mewn rheoli eu lledaeniad. Mae ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth yn rhan o'r broses o ymgysylltu â'r cyhoedd fel y gallant weithredu mesurau bioddiogelwch syml yn rhan o'u harferion dyddiol. Gellir cyflwyno a chludo rhywogaethau estron goresgynnol yn rhwydd ac yn ddamweiniol drwy weithgareddau hamdden megis garddio, chwaraeon dŵr a heicio. Trwy weithredu arferion bioddiogelwch syml megis offer glanhau a dillad ar ôl cynnal rhai gweithgareddau, gall pawb gyfrannu at gyfyngu lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol ac amddiffyn bywyd gwyllt Cymru yn sgil hynny. Gall deall agweddau sylfaenol y cyhoedd helpu i lywio polisïau a rhaglenni a llywio gweithgareddau addysg allgymorth.

1.6 Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr (2023–2030) yn gosod llwyfan uchelgeisiol ar gyfer gwaith ar rywogaethau estron goresgynnol yn y dyfodol. Ysgrifennwyd y strategaeth ar y cyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Mae ei bodolaeth yn gydnabyddiaeth o'r ffaith y gall rhywogaethau estron goresgynnol ledaenu ar draws ffiniau cenedlaethol, ac o ganlyniad, mae angen ymrwymiad ar y cyd rhwng llywodraethau Prydain Fawr i gydgysylltu dull o ymdrin â rhywogaethau estron goresgynnol.

1.7 Mae'r strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol yn rhan allweddol o sicrhau bod Prydain Fawr yn parhau i ddangos, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, fod Llywodraeth Cymru yn cymryd y bygythiad a achosir gan

rywogaethau estron goresgynnol o ddifrif a’i bod yn barod i gymryd camau ar y cyd yn eu herbyn.

1.8 Comisiynodd Is-adran Iechyd Planhigion ac Amddiffyn yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru Beaufort Research i gynnal arolwg o agweddau’r cyhoedd tuag at iechyd planhigion ac effaith rhywogaethau estron goresgynnol drwy ddefnyddio Omnibws Cymru mis Mawrth 2022. Mae sampl yr arolwg yn adlewyrchu nodweddion demograffig poblogaeth Cymru. Amcanion yr astudiaeth oedd deall yn well agwedd cyhoedd Cymru tuag at ddeall ac ymgysylltu ag iechyd planhigion a choed a chlefydau, a rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru. Nod y canlyniadau yw helpu i lywio polisi, ymchwil a gwaith ymgysylltu â’r cyhoedd Llywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo pwysigrwydd planhigion a choed iach ac annog ymddygiad cyfrifol ar draws y gymdeithas yn rhan o Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr (2023–2028).

## 2. Methodoleg

2.1 Cynhaliwyd yr arolwg drwy arolwg Omnibws Cymru Beaufort, sy'n cynnal cyfweliadau â sampl cwota o 1,000 o oedolion ledled Cymru, gan adlewyrchu'r boblogaeth o ran nodweddion demograffig allweddol. Ceir rhagor o fanylion am hyn ym mharagraff 2.4. Cynhelir cyfweliadau â set wahanol o oedolion ym mhob ton, er bod samplau'n cael eu paru o ran y nodweddion demograffig allweddol hyn.

2.2 Hyd at fis Mawrth 2020, cynhelid cyfweliadau wyneb yn wyneb ar Omnibws Cymru drwy CAPI (Cyfweld personol â chymorth cyfrifiadur). O ganlyniad i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19, newidiwyd y cyfweliadau i ddull ar-lein gan ddefnyddio rhaglen cyfnewid panel ar-lein Cint™.

2.3 Mae rhaglen Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â gwahanol safonau y diwydiant gan gynnwys ISO 20252—sef y safon ansawdd rhyngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil y farchnad. Cynhwysir gwiriadau ansawdd data lluosog[2] yn system Cint™ ac mae Beaufort yn datblygu yn ei gwestiynau rheoli ansawdd a'i fesurau ei hun yn yr arolwg, gan eithrio ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

2.4 Roedd yr arolwg yn destun rheolaethau cwota demograffig sy'n cyd-gloi[3] ar gyfer oedran ymhlith rhywedd. Gosodwyd rheolaeth cwota ar wahân ychwanegol ar radd gymdeithasol[4] a chynhaliwyd cyfweliadau gyda thrigolion o bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ar y cam dadansoddi, cafodd y data eu pwysoli fesul grŵp oedran, rhywedd, grŵp awdurdodau lleol a gradd gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod y sampl yn adlewyrchu ffigurau Cyfrifiad 2011 a nodweddion penodol poblogaeth Cymru.

---

[2]Nod y gwiriadau hyn yw sicrhau mai pobl go iawn sy'n ateb cwestiynau'r arolwg, er mwyn atal ymatebion dyblyg a sicrhau y rhoddir digon o sylw i gwestiynau i ddarparu data o ansawdd uchel.

[3] Niferoedd targed o gyfweliadau a bennir ar gyfer grwpiau demograffig penodol yn y boblogaeth, er mwyn helpu i gyflawni sampl gynrychioliadol ar gyfer yr arolwg yw rheolaethau cwota. Mae cyd-gloi rheolaethau cwota demograffig yn golygu bod y targed yn ymgorffori dau newidyn: grŵp oedran ymhlith rhywedd.

[4] System dosbarthu ar sail galwedigaeth a ddatblygwyd i'w defnyddio ar yr Arolwg Darllenyddiaeth Cenedlaethol yw gradd gymdeithasol. Diffinnir graddau cymdeithasol fel a ganlyn:
AB: Galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd
C1: Galwedigaethau goruchwyliol, clerigol a rheolaethol iau, gweinyddol a phroffesiynol
C2: Gweithwyr llaw crefftus
DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a heb sgiliau, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a'r graddau isaf, di-waith â budd-daliadau gwladol yn unig.

2.5 Rhoddodd Is-adran Iechyd Planhigion ac Amddiffyn yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru y cwestiynau i Beaufort ar gyfer yr Arolwg Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron Goresgynnol yng Nghymru (gweler yr holiadur yn Atodiad A).

2.6 Cynhwysir cwestiynau demograffig fel sy'n safonol mewn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg ar gyfer dewis iaith y cyfranogwyr.

2.7 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer arolwg mis Mawrth 2022 rhwng 28 Chwefror a 20 Mawrth 2022. Cafodd cyfanswm o 1,000 o gyfweliadau eu cwblhau a'u dadansoddi.

2.8 Darparwyd tabliadau data llawn o'r arolwg i Lywodraeth Cymru mewn adroddiad technegol ar wahân.

2.9 Dadansoddwyd y data fesul grŵp oedran ymhlith rhywedd (oedran-rhywedd)[5], fesul rhanbarth a thrwy radd gymdeithasol. Yna, dadansoddwyd y data ymhellach gan groestablu pob pâr o'r categorïau uchod (e.e. rhanbarth fesul gradd gymdeithasol).

2.10 Dewisodd pum ymatebwr y dewis 'Arall / Mae'n well gen i beidio â dweud' pan ofynnwyd iddynt am eu rhywedd. Doedd y nifer isel ddim yn caniatáu iddynt gael eu hystyried fel categori ar wahân wrth ddadansoddi data oedran-rhywedd. Felly, ni chawsant eu cynnwys yn y canrannau a adroddir yn y canfyddiadau wrth drafod categorïau oedran-rhywedd.

2.11 Roedd rhai o'r cwestiynau yn gofyn i'r cyfranogwyr ddarparu sgôr ar hyd graddfa Likert saith pwynt, gyda dewis o ateb 'ddim yn gwybod'. At ddibenion dadansoddi, cafodd y sgoriau ymateb hyn eu grwpio. Cafodd graddfeydd o 1–3 a 5–7 eu grwpio i gynrychioli pennau croes i'w gilydd ar y raddfa ac ystyriwyd 4 yn ymateb niwtral—ac eithrio categorïau ymateb ar lefel risg. Roedd y newidyn yr oedd graddfa Likert yn ei fesur yn amrywio fesul cwestiwn. Mae Tabl 2.1 yn

[5] Ystyriwyd rhywedd (gwrywaidd, benywaidd) ymhlith grŵp oedran (16–44, 45+) i ddatblethu lle gallai rhywedd neu oedran ddylanwadu ar batrwm mewn ymatebion. Pe byddai oedran a rhywedd yn cael eu hystyried ar wahân, byddai hyn yn peryglu colli patrymau ymateb penodol. Er enghraifft, pe byddai gan fenywod 45+ oed lefelau cytuno uchel â datganiad a phe byddai gan fenywod 16–44 oed lefelau cytuno is, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei cholli pe byddai'r data'n cael eu dadansoddi fesul rhywedd yn unig oherwydd y byddai'r lefelau cytuno yn cwrdd rhywle yn y canol.

nodi'r grwpiau a ddefnyddiwyd ym mhob adran o'r adroddiad lle'r oedd yr ymatebion ar hyd Graddfa Likert saith pwynt:

**Tabl 2.1**: Grwpiau a ddefnyddiwyd ym mhob adran o'r adroddiad pan roddwyd ymatebion ar hyd Graddfa Likert saith pwynt.

| Adran | Grŵp ymateb 1–3 | Sgôr ymateb: 4 | Grŵp ymateb 5–7 |
|---|---|---|---|
| 3, 4, 12 | Ddim yn bwysig / yn bwysig i raddau llai | Niwtral | Mae o bwys (i ryw raddau) |
| 5, 6 | Ddim yn bwysig / yn bwysig i raddau llai | Niwtral | Mae'n bwysig (i ryw raddau) |
| 7 | Dim risg i isel | Risg ganolig | Risg ganolig i uchel |
| 10 | Anghytuno | Niwtral | Cytuno |
| 11 | Ddim yn atal / yn atal i raddau llai | Niwtral | Mae'n atal (i ryw raddau) |
| 13 | Ddim yn helpu / yn helpu i raddau llai | Niwtral | Byddai'n helpu (i ryw raddau) |

2.12 Roedd cwestiynau eraill yn cynnig categorïau do/ydw, na, a ddim yn gwybod neu'n gofyn i'r cyfranogwyr roi gwybod am yr amlder ar raddfa o: bob amser neu pryd bynnag y byddaf yn cael y cyfle, yn aml, weithiau, yn anaml, byth. At ddibenion cyflwyno, mae 'bob amser neu pryd bynnag y byddaf yn cael y cyfle' wedi'i dalfyrru i bob amser wrth adrodd.

## 3. Safbwyntiau ar golli coed a phlanhigion

3.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut y byddent yn teimlo am naw gwahanol effaith planhigion neu goed yn marw neu'n gorfod cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau yn eu hardal leol (ffigur 3.1) ac yn genedlaethol ledled Cymru (ffigur 3.2). Yr effeithiau posibl oedd:

a. Colli carbon sydd wedi'i ddal / rhyddhau carbon o blanhigion/coed sy'n marw, sy'n golygu y bydd mwy o garbon deuocsid ($CO_2$) yn mynd i mewn i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd
b. Colli cysgod
c. Colli lliniaru llifogydd, sy'n golygu y byddai mwy o berygl o lifogydd i gartrefi ac eiddo
d. Golygfeydd llai deniadol / golwg y dirwedd yn newid
e. Colli cynhyrchiant bwyd
f. Colli coedwigaeth / cynhyrchiant pren
g. Colli cyfleoedd hamdden
h. Colli bioamrywiaeth / natur
i. Dirywiad mewn ansawdd aer / mwy o lygredd aer


3.2 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn teimlo bod pob un ond un o effeithiau planhigion neu goed yn marw neu y mae'n rhaid cael gwared arnynt oherwydd plâu a chlefydau yn bwysig. Dywedodd cyfranogwyr yn gyffredinol fod effeithiau ar lefel genedlaethol yn bwysicach i gyfranogwyr nag effeithiau ar lefel leol. Yr effeithiau yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo a oedd bwysicaf ar y ddwy lefel ddaearyddol oedd:

- dirywiad mewn ansawdd aer/mwy o lygredd aer,
- colli carbon sydd wedi'i ddal/rhyddhau carbon o blanhigion/coed sy'n marw, sy'n golygu y bydd mwy o garbon deuocsid ($CO_2$) yn mynd i mewn i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd,
- colli bioamrywiaeth/natur.

3.3 Roedd effaith colli cysgod yn llai pwysig i gyfranogwyr na'r holl effeithiau eraill. Roedd colli cysgod o bwys i 59 y cant o'r ymatebwyr yn eu hardal leol ac o bwys i 69 y cant o'r ymatebwyr yn genedlaethol. Dywedodd bron i 17 y cant o'r ymatebwyr nad oedd colli cysgod o bwys neu mai i raddau llai yr oedd o bwys


yn eu hardal leol a dywedodd 13 y cant o'r ymatebwyr nad oedd colli cysgod o bwys yn genedlaethol.

**Ffigur 3.1**—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu bod pob effaith oherwydd bod planhigion/coed yn marw neu'n cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau **yn eu hardal leol** o bwys—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

**Ffigur 3.2**—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu bod pob effaith planhigion/coed yn marw neu'n cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau **yn genedlaethol ledled Cymru** o bwys—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

3.4 Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o adrodd bod y datganiad o bwys i ryw raddau na'u cymheiriaid gwrywaidd. Roedd yr ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o raddio'r datganiad fel un sydd o bwys i ryw raddau na'u cymheiriaid 16–44 oed[6]. Roedd y patrwm hwn fwyaf amlwg ar gyfer effaith 'colli cysgod',

[6] Ac eithrio safbwyntiau am golli cynhyrchiant bwyd gan ymatebwyr gwrywaidd yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru, lle'r oedd ymatebwyr 16–44 oed yn fwy tebygol o ddweud bod yr effaith o bwys cenedlaethol na'r ymatebwyr 45+ oed

lle’r oedd y gwahaniaeth rhwng grwpiau oedran rhwng 10 ac 17 pwynt canran. Roedd gwahaniaethau grŵp oedran hefyd yn enwedig o amlwg ymhlith ymatebwyr gwrywaidd yn ne-orllewin Cymru ynghylch effeithiau colli lliniaru llifogydd ar lefel leol a chenedlaethol, ac effeithiau ar golli carbon sydd wedi’i ddal, cysgod a chyfleoedd hamdden yn lleol: roedd ymatebwyr gwrywaidd 45+ oed yn 24 i 31 pwynt canran yn fwy tebygol o adrodd bod y datganiadau uchod o bwys i ryw raddau nag ymatebwyr gwrywaidd 16–44 oed. Dim ond ymatebion yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru y dylanwadodd gradd gymdeithasol ar golli cysgod: roedd ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, ymatebwyr di-waith a oedd yn ceisio budd-daliadau’r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o ddweud ei fod o bwys na chyfranogwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1).

# 4. Safbwyntiau ar ddifrod gan rywogaethau estron goresgynnol

4.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio a oedd effeithiau posibl rhywogaethau estron goresgynnol sy'n achosi niwed i'w hardal leol o bwys. Y saith effaith bosibl oedd:


a. Risg uwch o lifogydd oherwydd fod dyfrffyrdd wedi'u rhwystro gan blanhigion goresgynnol neu lannau afonydd heb lystyfiant
b. Golygfeydd llai deniadol / golwg y dirwedd wedi newid oherwydd fod planhigion goresgynnol trechol yn disodli rhywogaethau cynhenid cymysg
c. Colli cynhyrchiant bwyd oherwydd rhywogaethau plâu goresgynnol
d. Colli coedwigaeth / cynhyrchiant pren oherwydd rhywogaethau estron goresgynnol
e. Colli cyfleoedd hamdden oherwydd colli mynediad i lannau afonydd / dyfrffyrdd / coetiroedd / gwlad agored
f. Colli bioamrywiaeth / natur oherwydd fod rhywogaethau goresgynnol trechol yn rhagori ar rywogaethau cynhenid
g. Colli bioamrywiaeth / natur oherwydd fod rhywogaethau goresgynnol yn cyflwyno clefydau newydd

4.2 Dywedodd mwy na 65 y cant o'r ymatebwyr fod pob datganiad yn bwysig i ryw raddau (dewis sgôr o 5, 6 neu 7)—gweler ffigur 4.1. Yr effeithiau yr ystyriodd yr ymatebwyr o'r pwys mwyaf yn eu hardal leol oedd colli bioamrywiaeth oherwydd rhywogaethau goresgynnol trechol yn rhagori ar rywogaethau cynhenid, colli bioamrywiaeth oherwydd bod rhywogaethau goresgynnol yn cyflwyno clefydau newydd, a chynnydd mewn risg o lifogydd. Er bod colli bioamrywiaeth oherwydd bod rhywogaethau estron goresgynnol trechol yn rhagori ar rywogaethau cynhenid o'r pwys mwyaf i'r ymatebwyr ar y cyfan, roedd amrywiaeth sylweddol yn y ganran a ddywedodd ei fod o bwys ymhlith ymatebwyr gwrywaidd ifanc mewn gwahanol ranbarthau. Er enghraifft, roedd 82 y cant o'r ymatebwyr ifanc gwrywaidd a oedd yn byw yn y Cymoedd yn credu ei fod o bwys, o'u cymharu â 57 y cant yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru.

4.3 Allan o'r holl ddatganiadau yn ymwneud ag effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol ar yr ardal leol, effeithiau golygfeydd llai deniadol / golwg y dirwedd

yn newid oedd â'r gyfran isaf o ymatebwyr a ddywedodd ei fod o bwys i ryw raddau.

**Ffigur 4.1—**Y graddau yr oedd o bwys i'r ymatebwyr a oedd rhywogaethau estron goresgynnol yn achosi difrod i'w hardal leol—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

4.4 Nododd cyfran uwch o ymatebwyr 45+ oed fod yr holl ddatganiadau o bwys i ryw raddau o'u cymharu ag ymatebwyr 16–44 oed. Mae hyn yn fwy amlwg ymhlith ymatebwyr benywaidd; fodd bynnag, roedd hefyd yn sylweddol ymhlith ymatebwyr gwrywaidd yng Nghanolbarth/gorllewin Cymru a de-orllewin Cymru pan ofynnwyd iddynt am golli cynhyrchiant bwyd a cholli coedwigaeth. Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol nag ymatebwyr gwrywaidd o raddio yr holl ddatganiadau fel rhai o bwys i ryw raddau.

4.5 Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n niwtral am effaith nag o ddweud nad oedd o bwys.


# 5. Pwysigrwydd mater plâu a chlefydau planhigion a choed

5.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pa mor bwysig yr oeddent yn teimlo yw mater plâu a chlefydau planhigion a choed ar draws pedair lefel ddaearyddol:

a. I chi'n bersonol
b. I'ch cymuned leol
c. I gymdeithas ehangach Cymru
d. Yn fyd-eang

5.2 Roedd y cyfranogwyr fwyaf tebygol o ddatgan bod iechyd coed a phlanhigion yn bwysig ar raddfa fyd-eang (81 y cant). Lleihaodd y pwysigrwydd wrth i'r lefel ddaearyddol gulhau, gyda 67 y cant yn dweud bod iechyd coed a phlanhigion yn bwysig iddynt yn bersonol.

**Ffigur 5.1**—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn meddwl bod mater plâu a chlefydau planhigion/coed yn bwysig ar raddfa ddaearyddol




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

5.3 Roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o ddweud bod iechyd coed a phlanhigion yn bwysig ar draws yr holl raddfeydd. Roedd mwy o wahaniaeth rhwng grwpiau oedran ymhlith yr ymatebwyr benywaidd.

Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau oedran ymhlith ymatebwyr benywaidd gradd gymdeithasol C2DE[7]—gyda 55 y cant o'r ymatebwyr 16–44 oed yn dweud bod plâu a chlefydau planhigion/coed yn bwysig o'u cymharu â 78 y cant o'r ymatebwyr 45+ oed. Mae hyn yn dangos bod menywod iau sydd mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol neu sy'n ddi-waith sy'n ceisio budd-daliadau gwladol yn ystyried plâu a chlefydau planhigion/coed yn fater llai personol.


[7] Mae gradd gymdeithasol C2DE yn cynnwys galwedigaethau gwaith llaw (ar draws lefel sgiliau), pensiynwyr y wladwriaeth, unigolion mewn gwaith achlysurol, pobl ddi-waith ar fudd-daliadau yr wladwriaeth—fodd bynnag, yn y grŵp oedran 16–44, dylid nodi na fydd hyn yn cynnwys pensiynwyr y wladwriaeth oherwydd oedran.

# 6. Pwysigrwydd amddiffyn planhigion/coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau.

6.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio ar raddfa o 1–7 sut maen nhw'n teimlo ynghylch pwysigrwydd amddiffyn planhigion/coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau, gydag 1 'ddim yn bwysig o gwbl' a 7 yn 'eithriadol o bwysig'.

6.2 Dywedodd y mwyafrif o'r bobl, 85 y cant, fod amddiffyn planhigion a choed yn bwysig iddynt. Ymatebwyr 45+ oed oedd fwyaf tebygol o ddweud bod amddiffyn coed a phlanhigion yn bwysig.

**Ffigur 6.1**—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu ei bod yn bwysig amddiffyn planhigion/coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*


6.3 Dywedodd cyfran is o ymatebwyr gwrywaidd 45+ oed yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru fod y datganiad yn bwysig i ryw raddau na gwrywod 45+ oed mewn rhanbarthau eraill.

# 7. Ffactorau sy'n risg i iechyd planhigion/coed yng Nghymru

7.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio ffactorau risg i iechyd coed a phlanhigion yng Nghymru. Y ffactorau risg oedd:

a. Mewnforion masnach
b. Mewnforion personol (e.e. pobl sy'n mynd ar eu gwyliau ac yn dod â phlanhigion/coeden yn ôl o daith dramor)
c. Newid yn yr hinsawdd
d. Ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau planhigion/coed
e. Lefelau isel o wybodaeth am gamau gweithredu i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau planhigion/coed
f. Diffyg cymhelliant i sefydliadau ac unigolion fabwysiadu ymddygiad ac arferion i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau planhigion/coed
g. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu ar-lein gan fanwerthwyr domestig
h. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu ar-lein gan fanwerthwyr rhyngwladol
i. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu mewn siop gan fanwerthwyr arbenigol (e.e. canolfannau garddio, planhigfeydd)
j. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu mewn siop gan fanwerthwyr nad ydynt yn arbenigwyr (e.e. archfarchnadoedd, siopau DIY)

**Ffigwr 7.1**—Safbwyntiau ar lefel y risg i iechyd planhigion/coed yng Nghymru o’r ffactorau canlynol—yr holl ffactorau.




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

7.2 Sgoriodd y cyfranogwyr lefelau isel o wybodaeth, ymwybyddiaeth wael, diffyg cymhelliant i newid ymddygiad a newid hinsawdd fel y risg uchaf i iechyd planhigion yng Nghymru. Roedd llai na hanner y cyfranogwyr yn credu bod planhigion a werthir ar-lein gan fanwerthwyr domestig, planhigion a werthir mewn siop gan fanwerthwyr arbenigol a mewnforion masnachol yn peri risg canolig i uchel. Ar gyfer datganiadau ynghylch mewnforion a gwerthu planhigion a choed[8] dywedodd llawer o ymatebwyr (15 i 25 y cant) nad oeddent yn gwybod am y risg.

[8] a. Mewnforion masnach; b. Mewnforion personol (e.e. pobl sy’n mynd ar eu gwyliau ac yn dod â phlanhigion/coeden yn ôl o daith dramor); g. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu ar-lein gan fanwerthwyr domestig; h. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu ar-lein gan fanwerthwyr rhyngwladol; i. Planhigion/coed yn

7.3 Roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o raddio newid yn yr hinsawdd, ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau planhigion/coed, diffyg gwybodaeth/cymhellion a mewnforion personol fel risg canolig i uchel neu uchel i iechyd planhigion/coed nag ymatebwyr 16–44 oed.

7.4 Yn gyffredinol, nid oedd unrhyw batrymau ymateb clir yn ôl rhywedd ar draws y ffactorau risg; fodd bynnag, newid hinsawdd ac ymwybyddiaeth wael oedd yr unig risgiau yr oedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o raddio'r ffactor fel risg canolig-uchel neu uchel o'u cymharu ag ymatebwyr gwrywaidd. Roedd y patrwm hwn yn enwedig o gryf ymhlith ymatebwyr 45+ oed yng Nghaerdydd a de-ddwyrain Cymru—roedd 89 y cant o fenywod o'u cymharu â 61 y cant o'r ymatebwyr gwrywaidd yn credu bod newid hinsawdd yn risg canolig i uchel neu uchel i iechyd planhigion. Ond o ran ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau planhigion/coed, roedd y patrwm hwn i'r gwrthwyneb yn y Cymoedd: roedd ymatebwyr gwrywaidd 45+ oed (90 y cant) yn credu bod ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau yn risg uwch i iechyd planhigion a choed o'u cymharu ag ymatebwyr benywaidd 45+ oed (71 y cant). Roedd graddau cymdeithasol uwch (ABC1) yn y Cymoedd yn fwy tebygol o raddio newid hinsawdd fel risg canolig-uchel neu uchel (87 y cant) na graddau cymdeithasol is (C2DE) (71 y cant).

cael eu gwerthu mewn siop gan fanwerthwyr arbenigol (e.e. canolfannau garddio, planhigfeydd); j. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu mewn siop gan fanwerthwyr nad ydynt yn arbenigwyr (e.e. archfarchnadoedd, siopau DIY)

## 8. Gwybodaeth, diddordeb a chamau gweithredu a gymerir ar iechyd planhigion ac atal rhywogaethau estron goresgynnol

### Diddordeb a gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed


8.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pa mor aml (os o gwbl) yr oedd pob un o'r datganiadau canlynol ar ddiddordeb a gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed yn berthnasol iddynt. Roedd yn rhaid iddynt ddewis un o'r dewisiadau rhestredig: bob amser neu pryd bynnag y byddaf yn cael y cyfle (a dalfyrrir i 'bob amser' o hyn ymlaen), yn aml, weithiau, yn anaml, a byth. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddarparu sgoriau ar gyfer chwe gweithred wahanol:

a. Rwy'n cymryd diddordeb yn iechyd planhigion/coed yn fy nghartref/gardd, a pha mor dda maen nhw'n tyfu.
b. Rwy'n gwirio planhigion/coed yn fy nghartref/gardd am arwyddion o blâu a chlefydau, a byddaf yn ceisio trin unrhyw broblemau rwy'n dod o hyd iddynt.
c. Rwy'n gallu adnabod planhigyn/coeden sydd wedi'i heffeithio gan blâu neu glefyd.
d. Rwyf wedi adrodd am blanhigyn/coeden a allai, yn fy marn i, fod â phla neu glefyd.
e. Rwy'n glanhau pridd oddi ar fy esgidiau ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd o goetir (e.e., parciau, coedwigoedd ac ati)
f. Rwy'n rhoi arian i grwpiau sy'n pryderu am ddiogelu'r DU rhag plâu a chlefydau planhigion/coed.

8.2 Mae'r cyfranogwyr fwyaf tebygol o gymryd diddordeb yn eu gardd eu hunain, iechyd planhigion a choed, ac mewn gwirio am blâu a chlefydau—dywedodd 53 y cant a 44 y cant yn y drefn honno eu bod yn gwneud hyn bob amser neu'n aml. Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr (35 y cant) hefyd eu bod yn glanhau eu esgidiau 'bob amser neu'n aml' ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd coetir. Roedd y cyfranogwyr leiaf tebygol o fod wedi rhoi gwybod am goeden neu blanhigyn yr oeddent yn credu bod pla neu glefyd arno (nid oedd 73 y cant yn rhoi gwybod byth, neu'n anaml yr oeddent yn gwneud hynny), neu o roi arian i grwpiau sy'n pryderu am ddiogelu'r DU rhag plâu a chlefydau planhigion/coed (dywedodd 64 y cant nad oeddent byth yn gwneud hynny, neu mai'n anaml yr oeddent yn gwneud hynny). Nid yw'n glir a oedd cyfranogwyr yn methu â rhoi gwybod am blanhigion neu goed yr oeddent yn credu bod pla neu glefyd arnynt

yn aml iawn oherwydd nad oeddent yn gwybod am y broses adrodd, oherwydd nad oeddent yn sylweddoli bod haint ar y planhigyn neu goeden neu oherwydd nad oedd haint ar blanhigion neu goed y gallai'r ymatebwr roi gwybod amdani. Dywedodd 35% o'r ymatebwyr eu bod wedi gallu adnabod pla a chlefydau 'weithiau', a dywedodd chwarter yr ymatebwyr eu bod yn gallu gwneud hynny 'bob amser neu'n aml'.

**Ffigur 8.1**—Pa mor aml yr oedd yr ymatebwyr yn dweud yr oedd y datganiadau canlynol yn berthnasol iddynt—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

8.3 Roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o gymryd diddordeb mewn iechyd coed a phlanhigion. O ran ymatebwyr 16–44 oed, roedd cyfranogwyr gwrywaidd ar y cyfan yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt ddiddordeb mewn iechyd planhigion na chyfranogwyr benywaidd; mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer ymatebwyr 45+ oed ar y cyfan, pan oedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt ddiddordeb mewn iechyd planhigion. O ran gweithredu, ymatebwyr gwrywaidd 16–44 oed oedd fwyaf tebygol o roi gwybod am

blanhigyn yr oeddent yn credu bod pla neu glefyd arno ac o roi arian i grwpiau—a nodir gan ganrannau llai sy'n dweud nad ydynt erioed wedi gwneud y gweithgareddau hyn neu mai'n anaml y maent yn eu gwneud (50 y cant a 54 y cant yn y drefn honno).

8.4 Yn y Cymoedd, roedd ymatebwyr gradd gymdeithasol galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol, a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1) yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent erioed wedi rhoi gwybod am blanhigyn neu goeden yr oeddent yn credu bod pla arni na chyfranogwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau gwladol neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE).

**Ymwybyddiaeth a gweithredoedd ymatebwyr i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol**

8.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio pa mor aml (os o gwbl) yr oedd gweithredoedd neu ddatganiadau ar fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol yn berthnasol iddynt. Roedd yn rhaid iddynt ddewis un o'r ymatebion canlynol: bob amser neu pryd bynnag y byddaf yn cael y cyfle, yn aml, weithiau, yn anaml, byth ar gyfer pob datganiad. Dyma'r datganiadau:


a. Rwy'n gallu nodi rhywogaethau estron goresgynnol
b. Rwy'n rhoi gwybod am bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol
c. Rwy'n gwybod pa gamau sylfaenol i'w cymryd i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol yn fy ngardd / ardal leol e.e. glanhau fy esgidiau ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd o goetir
d. Rwy'n rhoi arian i grwpiau sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
e. Rwy'n gwirfoddoli gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol

8.6 Yr ateb mwyaf cyffredin ar gyfer pob datganiad oedd 'Byth'. O ran y datganiadau 'Rwy'n rhoi gwybod am bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol', 'Rwy'n rhoi arian i grwpiau sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol' ac 'Rwy'n gwirfoddoli gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol', dywedodd mwy na 50 y cant

o’r ymatebwyr nad oedd y datganiad erioed wedi bod yn berthnasol iddynt. Mae’r datganiadau hyn yn ymwneud ag ymatebwyr yn gorfod gweithredu yn hytrach na bod â gwybodaeth am rywogaethau estron goresgynnol, a allai ddangos rhwystrau i weithredu ar rywogaethau estron goresgynnol gan y cyhoedd.

8.7 Roedd datganiad c ‘Rwy’n gwybod pa gamau sylfaenol i'w cymryd i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol yn fy ngardd / ardal leol e.e.: glanhau fy esgidiau ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd o goetir’ yn berthnasol i’r mwyafrif o’r ymatebwyr. Atebodd 13% o’r ymatebwyr ‘Yn aml’ (o’u cymharu â chyfartaledd cyffredinol y datganiadau eraill, sef 5 y cant), ac atebodd canran uchel ‘Weithiau’ (24 y cant).

**Ffigur 8.2**—Pa mor aml y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn ymwybodol / gwneud y camau a nodwyd i fynd i’r afael â rhywogaethau estron goresgynnol—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

8.8 Roedd ymatebwyr 16–44 oed yn fwy tebygol o ddweud ‘byth’ ar gyfer datganiadau yn ymwneud â gwybodaeth[9], ac roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o ddweud ‘byth’ ar gyfer datganiadau yn ymwneud â gweithredu[10], yn benodol rhoi arian a gwirfoddoli.


**Gweithio gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i fonitro am blâu a chlefydau planhigion/coed.**

8.9 Dywedodd y mwyafrif o’r ymatebwyr (94 y cant) ‘na’ i fod wedi gweithio erioed gyda grwpiau lleol neu genedlaethol i fonitro plâu a chlefydau planhigion/coed.

[9] Datganiadau: a. Rwy’n gallu nodi rhywogaethau estron goresgynnol; c. Rwy’n gwybod pa gamau sylfaenol i'w cymryd i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol yn fy ngardd / ardal leol e.e.: glanhau fy esgidiau ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd o goetir

[10] Datganiadau: b. Rwy’n rhoi gwybod am bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol; d. Rwy’n rhoi arian i grwpiau sy’n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol; e. Rwy’n gwirfoddoli gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol

**Ffigur 8.3**—Atebion ymatebwyr ynghylch a ydynt erioed wedi gweithio gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i fonitro am blâu a chlefydau planhigion/coed.




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

8.10 Fodd bynnag, roedd ymatebwyr iau (16–44 oed) yn fwy tebygol nag ymatebwyr hŷn (45+ oed) o fod wedi gweithio gyda'r grwpiau hyn (oddeutu 10 pwynt canran yn fwy). Ar y cyfan, ymatebwyr gwrywaidd 16–44 oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi gweithio gyda grwpiau i fonitro plâu a chlefydau planhigion/coed.

**Safbwyntiau ar fesurau bioddiogelwch sy'n ddefnyddiol i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol**

8.11 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio faint maent yn meddwl y byddai mesurau bioddiogelwch penodol yn helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol. Y chwe mesur bioddiogelwch oedd:

a. Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd am rywogaethau estron goresgynnol, risgiau ac effeithiau drwy daflenni gwybodaeth, canllawiau ar-lein ac ati.

b. Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd am offer glanhau, esgidiau, cerbydau, offer pysgota i helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu.

c. Rhoi gwybod am weld rhywogaethau estron goresgynnol e.e., ar apiau ffonau symudol


d. Hyrwyddo'r defnydd o rywogaethau cynhenid amgen mewn garddio, parciau cyhoeddus, cyfleusterau hamdden ac ati

e. Gosod arwyddion, canllawiau neu offer glanhau mewn mannau cyhoeddus lle mae risg o ledu rhywogaethau estron goresgynnol.

f. Canllawiau ar sut i reoli neu gael gwared ar rywogaethau goresgynnol.

8.12 Dywedodd mwy na 70 y cant o'r ymatebwyr y byddai pob mesur bioddiogelwch yn helpu i ryw raddau (sgôr o 5, 6 neu 7)— gweler ffigur 8.4. Y mesurau bioddiogelwch yr oedd yr ymatebwyr o'r farn a fyddai'n helpu fwyaf oedd arweiniad ar sut i reoli neu ddileu rhywogaethau estron goresgynnol; gosod arwyddion, arweiniad neu offer glanhau mewn mannau cyhoeddus a hybu'r defnydd o rywogaethau cynhenid mewn mannau preifat a chyhoeddus.

**Ffigur 8.4**—Y graddau yr oedd yr ymatebwyr yn credu y byddai pob mesur bioddiogelwch yn helpu—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

8.13 Roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o adrodd bod y datganiad o bwys i ryw raddau na'u cymheiriaid gwrywaidd. Roedd yr ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o raddio'r datganiad fel un sydd o bwys i ryw raddau na'u cymheiriaid 16–44 oed.


8.14 Roedd ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, ymatebwyr di-waith a oedd yn ceisio budd-daliadau'r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o raddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd a'r gallu i roi gwybod bod rhywogaethau estron goresgynnol yr oeddent wedi'u gweld yn ddefnyddiol o'u cymharu â chyfranogwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1).

# 9. Ymchwilio a chael gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed.

9.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr a. 'Ydych chi erioed wedi chwilio neu ofyn am wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed?' a b. 'Ydych chi erioed yn cofio gweld, darllen neu glywed unrhyw beth am blâu a chlefydau planhigion/coed?'.

9.2 Atebodd 75 y cant o'r ymatebwyr 'Na' i fod erioed wedi mynd ati i chwilio neu ofyn am wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed, ac atebodd 53 y cant o'r ymatebwyr 'Na' i gofio eu bod erioed wedi gweld, darllen, neu glywed unrhyw beth am blâu a chlefydau planhigion/coed. Mae'r canfyddiadau'n dangos, er nad yw'r mwyafrif o'r ymatebwyr wedi mynd ati i chwilio am wybodaeth (75 y cant), fod ychydig dros 40 y cant ohonynt yn cofio gweld gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed.

**Ffigur 9.1**—Atebion ymatebwyr ar eu gweithred ynghylch plâu a chlefydau planhigion/coed a ddisgrifir yn y cwestiynau—pob cwestiwn




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

9.3 Roedd ymatebwyr benywaidd 16–44 oed yn llai tebygol o fod wedi mynd ati i chwilio am wybodaeth neu o allu cofio gweld, darllen neu glywed am blâu a chlefydau planhigion/coed.

9.4 Roedd yr ymatebwyr yn y Canolbarth/gorllewin Cymru yn fwy tebygol na rhanbarthau eraill o ymateb ‘Do’ i fod wedi mynd ati i chwilio am wybodaeth am blâu a chlefydau coed a phlanhigion. Yn benodol, roedd ymatebwyr gwrywaidd 45+ oed yn y rhanbarth hwn yn fwy tebygol o fod wedi mynd ati i chwilio am wybodaeth nag ymatebwyr gwrywaidd 45+ oed mewn rhanbarthau eraill.

9.5 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1) yn fwy tebygol o ateb ‘Do’ i’r ddau gwestiwn nag ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau gwladol neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE). Fodd bynnag, roedd y gwrthwyneb yn wir ar gyfer ymatebwyr gwrywaidd 16–44 oed, lle’r oedd y rhai mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau’r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o fod wedi mynd ati i chwilio am wybodaeth am blâu a chlefydau coed a phlanhigion na’r rhai mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1). Gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng graddau cymdeithasol yn y Canolbarth/gorllewin Cymru: Nododd 60 y cant o’r ymatebwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1) eu bod yn cofio gweld, darllen, neu glywed rhywbeth am blâu a chlefydau planhigion/coed o’u cymharu â 36 y cant o’r ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau’r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE).

**Safbwyntiau yr ymatebwyr ar ba mor rhwydd yw cael gafael ar yr wybodaeth a ganfuwyd**

9.6 Gofynnwyd i’r ymatebwyr a atebodd ‘Do’ i un neu’r ddau gwestiwn blaenorol ddweud i ba raddau yr oeddent yn cytuno â’r ddau ddatganiad canlynol:


a. Mae’n hawdd dod o hyd i wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed.

b. Mae’n hawdd deall gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed.

9.7 Dywedodd bron i 50 y cant o’r ymatebwyr eu bod yn cytuno i ryw raddau â’r ddau ddatganiad. Roedd ymatebwyr galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1) yn fwy tebygol o gytuno â’r datganiadau (10 pwynt canran o wahaniaeth) nag ymatebwyr mewn swyddi

gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau gwladol neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE).

**Ffigur 9.2**—Atebion ymatebwyr ar a ydynt yn cytuno â'r datganiadau bod gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed yn hawdd eu canfod a/neu eu deall—y ddau ddatganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

9.8 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr 45+ oed yn fwy tebygol o gytuno ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed nag ymatebwyr 16–44 oed. Nid yw'r patrwm hwn yn wir am ymatebwyr gwrywaidd ar gyfer y datganiad 'Mae'n hawdd deall gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed', lle nad oedd y gwahaniaeth mewn ymatebion yn sylweddol.

9.9 Roedd yr ymatebwyr yn y Canolbarth/gorllewin Cymru yn llai tebygol o ddweud bod gwybodaeth yn hawdd ei chanfod nag ymatebwyr yn y rhanbarthau eraill.

9.10 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1) yn fwy tebygol o ddweud ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth nag ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau gwladol neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE). Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y Canolbarth/gorllewin a gogledd Cymru; eithriad i'r patrwm yw ymatebwyr yn ne-orllewin Cymru, lle'r oedd ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, a oedd yn ddi-waith yn ceisio budd-daliadau gwladol neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o ddweud ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth a'i deall na'r rhai

mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1).

## 10. Ffactorau sy'n atal cymryd camau i wella iechyd planhigion/coed.


10.1 Gofynnwyd i'r ymatebwyr raddio faint yr oeddent yn credu yr oedd ffactorau penodol yn eu hatal rhag gweithredu i fod o fudd i iechyd planhigion a choed. Y ffactorau oedd:

a. Dydw i ddim yn gwybod yn union pa gamau i'w cymryd/ nid oes gen i'r wybodaeth i weithredu
b. Alla i ddim helpu'n gorfforol
c. Does gen i ddim yr adnoddau (e.e. arian) i wneud yr hyn sydd ei angen
d. Does gen i ddim yr awdurdod i wneud yr hyn sydd ei angen
e. Dydw i ddim yn poeni / nid yw plâu a chlefydau planhigion yn cael unrhyw effaith wirioneddol arnaf fi
f. Does gen i ddim yr amser
g. Nid fy nghyfrifoldeb i yw gwneud hynny
h. Nid oes unrhyw bwynt—nid yw fy ngweithredoedd yn cael unrhyw effaith os nad yw'r rhan fwyaf o bobl eraill hefyd yn cymryd rhan

10.2 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (63 y cant) nad oedd peidio â malio, na'r gred nad yw clefydau planhigion yn cael unrhyw effaith wirioneddol arnynt yn eu hatal rhag gweithredu, roedd hyn yn enwedig o amlwg ymhlith benywod 45+ oed (75 y cant). Mae hyn yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn credu bod iechyd planhigion yn bwysig ac yn cael effaith.

10.3 Y ffactorau y dywedodd yr ymatebwyr eu bod yn eu hatal rhag gweithredu fwyaf oedd a. Dydw i ddim yn gwybod yn union pa gamau i'w cymryd/ nid oes gen i'r wybodaeth i weithredu, c. Does gen i ddim yr adnoddau (e.e. arian) i wneud yr hyn sydd ei angen a d. Does gen i ddim yr awdurdod i wneud yr hyn sydd ei angen.

**Ffigur 10.1**—Atebion ymatebwyr ynghylch faint oeddent yn credu yr oedd y ffactorau canlynol yn eu hatal rhag gweithredu i fod o fudd i iechyd planhigion/coed—pob datganiad




*Sylfaen: pob ymatebwr (n = 1,000)*

10.4 Roedd ymatebwyr gwrywaidd yn fwy tebygol o nodi rhwystrau a'u rhwystrodd rhag gweithredu ar iechyd planhigion nag ymatebwyr benywaidd, roedd hyn yn fwy amlwg ymhlith ymatebwyr 45+ oed. O'u cymharu â'r ymatebwyr hŷn, roedd ymatebwyr 16–44 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oedd y ffactorau'n eu hatal rhag gweithredu.

10.5 Mae'n ymddangos bod gradd gymdeithasol yn dylanwadu ar sut yr ymatebodd cyfranogwyr i ddatganiadau penodol, er ei bod yn cynhyrchu ychydig iawn o wahaniaeth mewn eraill. Yn y prosiect ymchwil hwn, galwedigaeth a statws cyflogaeth a ddefnyddir i benderfynu ar radd gymdeithasol. Damcaniaethir bod perthynas sylfaenol rhwng yr adnoddau a ddisgrifir yn y datganiadau (amser,

arian, iechyd) a galwedigaeth neu statws cyflogaeth sy'n dylanwadu ar y datganiadau yr effeithir arnynt gan radd gymdeithasol. Dyma'r datganiadau:

b. Alla i ddim helpu'n gorfforol

c. Does gen i ddim yr adnoddau (e.e. arian) i wneud yr hyn sydd ei angen

f. Does gen i ddim yr amser

Roedd ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, ymatebwyr di-waith ac ymatebwyr a oedd yn ceisio budd-daliadau'r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o ddatgan bod diffyg adnoddau a diffyg awdurdod yn eu hatal rhag gweithredu nag ymatebwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1).

10.6 Roedd ymatebwyr benywaidd iau yn fwy tebygol nag ymatebwyr benywaidd hŷn o ddweud bod diffyg gwybodaeth am yr hyn i'w wneud/sut i'w wneud yn atal gweithredu. Ni welwyd unrhyw wahaniaeth ymhlith ymatebwyr gwrywaidd ar sail oedran.

10.7 Roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gallu helpu'n gorfforol, ac nad oedd amser yn eu hatal rhag gweithredu, o'u cymharu ag ymatebwyr iau.

10.8 Roedd ymatebwyr benywaidd hŷn yn fwy tebygol na'r ymatebwyr benywaidd iau o ddweud nad oedd y gred 'Nid oes unrhyw bwynt—nid yw fy ngweithredoedd yn cael unrhyw effaith os nad yw'r rhan fwyaf o bobl eraill hefyd yn cymryd rhan' yn atal gweithredu.

# 11. Adolygu'r Dystiolaeth Bresennol

11.1 Ar ôl dadansoddi a dehongli'r arolwg, cynhaliwyd adolygiad cyflym o'r dystiolaeth bresennol nad oedd yn gynhwysfawr. Y nod oedd deall a oedd canfyddiadau allweddol y dadansoddiad o'r arolwg yn cael eu hadlewyrchu yn y sylfaen dystiolaeth ehangach. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar a oedd safbwyntiau grwpiau demograffig penodol, oedolion hŷn ac ymatebwyr benywaidd, yn wahanol i'r boblogaeth gyffredinol ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd planhigion a choed megis yr hinsawdd, yr amgylchedd, bioamrywiaeth neu natur. Roedd llenyddiaeth a gynhwyswyd yn yr adolygiad yn cadw at y meini prawf canlynol:

- Dyddiadau cynnwys: 2000–2023 / eithrio: cyn 2000
- Daearyddiaeth—Cynnwys—Cymru / DU / eithrio: tu allan i'r DU
- Mathau o lenyddiaeth—Cynnwys: erthyglau cyfnodolion, dogfennau a adolygwyd gan gymheiriaid, adroddiadau a dogfennau y Llywodraeth / eithrio: darnau barn, blogiau, erthyglau papur newydd neu gylchgrawn

11.2 Manylir ar y termau chwilio yn nhabl 11.1 isod

**Tabl 11.1:** Termau chwilio a gynhwyswyd wrth adolygu'r dystiolaeth bresennol

| | |
|---|---|
| Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r **hinsawdd** yng Nghymru | Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r **hinsawdd** yn y DU |
| Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r **amgylchedd** yng Nghymru | Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â'r **amgylchedd** yn y DU |
| Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â **bioamrywiaeth** yng Nghymru | Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â **bioamrywiaeth** yn y DU |
| Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â **natur** yng Nghymru | Effaith oedran ar safbwyntiau ar faterion sy'n ymwneud â **natur** yn y DU |

11.3 Yn gyffredinol, prin oedd y dystiolaeth yn ymwneud â sut yr oedd gwahanol nodweddion yn effeithio ar safbwyntiau unigolion ar faterion sy'n ymwneud â'r hinsawdd a'r amgylchedd. Mae llenyddiaeth hefyd yn awgrymu bod angen mwy

o ymchwil ar y pynciau hyn (GIG Cymru a Phrifysgol Bangor, 2022). Nododd ymchwil mwy diweddar ganfyddiadau sy'n gyson â chanfyddiadau'r adroddiad hwn: roedd ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o gymryd diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â newid hinsawdd, ac yn llai tebygol o fod yn amheugar ynghylch newid hinsawdd (Poortinga et al, 2011; The Chatham House–YouGov Survey, 2011; Crawley et al., 2019; ONS, 2021; Capstick et al., 2013; Hartley et al., 2018); ni nododd astudiaethau eraill gydberthynas rhwng y nodweddion a'r safbwynt uchod ar newid hinsawdd a'r amgylchedd (Fischer a van der Wal, 2007; Bremner a Park, 2007).

## 12. Casgliadau

12.1 Mae'r adroddiad hwn wedi crynhoi canfyddiadau arolwg yn cynnwys 1000 o aelodau'r cyhoedd yng Nghymru ar iechyd planhigion, pla a chlefydau planhigion a choed, ac effaith ac atal rhywogaethau estron goresgynnol.

12.2 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod y broblem pla a chlefydau planhigion/coed yn bwysig ar lefelau personol, cymunedol, cymdeithas a byd-eang. Roedd yr ymatebwyr yn fwy tebygol o ddweud bod plâu a chlefydau planhigion/coed yn bwysig ar raddfa fyd-eang yn hytrach nag ar lefel bersonol. Yn gyffredinol, dywedodd ymatebwyr bod amddiffyn planhigion a choed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau yn bwysig.

12.3 Colli bioamrywiaeth a chynnydd mewn risg o lifogydd o ganlyniad i rywogaethau estron goresgynnol yn achosi niwed i ardal leol yr ymatebwyr oedd bwysicaf i'r cyfranogwyr, a golygfeydd llai deniadol oedd lleiaf pwysig. Yn gyffredinol, ansawdd aer gwaeth, lefelau uwch o garbon yn yr atmosffer a cholli bioamrywiaeth o ganlyniad i blanhigion a choed yn marw neu'n cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau oedd bwysicaf i'r cyfranogwyr ar lefel lleol a chenedlaethol. Ond colli cysgod o ganlyniad i blanhigion a choed yn marw neu'n cael eu symud oedd lleiaf pwysig i'r ymatebwyr. Roedd effeithiau yn deillio o blanhigion a choed yn marw neu'n cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau yn bwysicach i gyfranogwyr ar lefel genedlaethol nag yn lleol.

12.4 Roedd yn ymddangos nad oedd gan yr ymatebwyr ddigon o wybodaeth am sut mae ffactorau penodol yn effeithio ar risgiau iechyd planhigion. Dywedodd llai o ymatebwyr bod planhigion/coed a werthir mewn siopau gan fanwerthwyr arbenigol (e.e. canolfannau garddio, meithrinfeydd), planhigion/coed a werthir ar-lein gan fanwerthwyr domestig a mewnforion masnach yn risg uchel i iechyd planhigion; nid yw hyn yn adlewyrchu canfyddiadau asesiadau risg plâu a chlefydau planhigion a gynhaliwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf[11]. Caiff planhigion, hadau a deunydd organig sy'n cael eu mewnforio'n fasnachol gan ddefnyddio sianeli swyddogol eu rheoleiddio a'u monitro gan y wlad sy'n mewnforio a Sefydliadau Amddiffyn Planhigion Cenedlaethol, megis yr Arolygiaeth Iechyd Planhigion a Hadau yng Nghymru a Lloegr. Mae gwerthwyr a dosbarthwyr hefyd yn cael eu monitro a'u gwirio yn rheolaidd. Er eu bod hefyd

[11] Plant health controls—GOV.UK (www.gov.uk)

yn cael eu rheoleiddio[12], gall mewnforion personol fynd heb gael eu canfod pan maent yn cael eu dwyn i'r wlad mewn cerbydau preifat. Mae hyn yn cynyddu'r risg o fewnforio organeb risg uchel yn ddamweiniol, megis planhigyn gwaharddedig neu bla. Felly, mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o'r risgiau hyn. Mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, fel ymgyrch Don't Risk It[13] wedi ceisio lledaenu gwybodaeth ac arweiniad ar risg mewnforion personol anghyfreithlon. Efallai y bydd cyfle i ddeall sut i ehangu cyrhaeddiad yr ymgyrch hon drwy ymgysylltu pellach ag aelodau'r cyhoedd.

12.5 Y ffactorau a raddiodd yr ymatebwyr fel y rhai sy'n dwyn risg uchel i iechyd planhigion oedd ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau planhigion/coed, lefelau isel o wybodaeth am gamau i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau planhigion/coed, newid hinsawdd, a diffyg cymhelliant i sefydliadau ac unigolion fabwysiadu ymddygiadau ac arferion i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau planhigion/coed. Yn gysylltiedig â'r risg ganfyddedig o ymwybyddiaeth wael, dywedodd chwarter yr ymatebwyr y gallent nodi planhigyn neu goeden a oedd wedi cael ei heffeithio gan bla neu glefyd yn aml neu bob amser, yn y cyfamser, dywedodd dros draean yr ymatebwyr eu bod yn gallu gwneud hyn weithiau. Hefyd, roedd ymatebwyr fwyaf tebygol o ddweud nad oedd ganddynt yr wybodaeth i weithredu fel rhwystr a oedd yn eu hatal rhag gweithredu i fod o fudd i iechyd planhigion a choed. Mae hyn yn dangos y gallai gwella ymwybyddiaeth o blâu a chlefydau planhigion a choed a gwybodaeth am sut i weithredu fod yn fuddiol.

12.6 Dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr nad oeddent erioed wedi gweithio gyda grwpiau i fonitro plâu a chlefydau planhigion/coed, mynd ati i chwilio neu ofyn am wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed, neu nad oeddent yn cofio eu bod erioed wedi gweld, darllen, neu glywed unrhyw beth am blâu a chlefydau planhigion/coed. Mae'n ymddangos bod hyn yn awgrymu nad oes gan y mwyafrif o'r ymatebwyr ddiddordeb mewn mynd ati i ymchwilio iechyd planhigion; fodd bynnag, roedd ychydig dros 40 y cant ohonynt yn gallu cael gafael ar wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed ac yn cofio ei gweld. Dywedodd oddeutu hanner yr ymatebwyr a fu'n chwilio neu a welodd

[12] Bringing plants and wood into Great Britain: Overview—GOV.UK (www.gov.uk)
[13] Ymgyrch Don't Risk It gan Sefydliad Diogelu Planhigion Ewrop a'r Môr Canoldir (EPPO)

wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed bod yr wybodaeth yn hawdd ei chanfod ac yn hawdd ei deall.

12.7 Y mesurau bioddiogelwch yr oedd yr ymatebwyr o'r farn a fyddai'n helpu fwyaf oedd arweiniad ar sut i reoli neu ddileu rhywogaethau estron goresgynnol; gosod arwyddion, arweiniad neu offer glanhau mewn mannau cyhoeddus a hybu'r defnydd o rywogaethau cynhenid mewn mannau preifat a chyhoeddus. Roedd ymatebwyr mewn swyddi gwaith llaw, mewn gwaith achlysurol, ymatebwyr di-waith a oedd yn ceisio budd-daliadau'r wladwriaeth neu ar bensiwn y wladwriaeth (gradd gymdeithasol C2DE) yn fwy tebygol o raddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd ac adrodd eu bod wedi gweld rhywogaethau estron goresgynnol fel rhai defnyddiol o'u cymharu â chyfranogwyr mewn galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol a phroffesiynol (gradd gymdeithasol ABC1).

12.8 Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr 45+ oed ac ymatebwyr benywaidd yn fwy tebygol o ddweud bod y datganiadau'n bwysig/defnyddiol i ryw raddau nac ymatebwyr 16–44 oed ac ymatebwyr gwrywaidd. Roedd ymatebwyr gwrywaidd hefyd yn fwy tebygol o adrodd bod rhwystrau yn eu hatal rhag gweithredu i fod o fudd i iechyd planhigion/coed. Byddai'n fuddiol archwilio'r gwahaniaeth rhywedd a nodwyd yn y sampl o ymatebwyr ymhellach i nodi a ddylid cynnwys dynion mewn gweithredoedd i hybu iechyd planhigion, a sut i wneud hynny.

12.9 Roedd ymatebwyr 16–44 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth am iechyd planhigion, plâu a chlefydau na dulliau atal, yn enwedig ymatebwyr benywaidd 16–44 oed. Gallai hyn ddangos bod cyfle i dargedu adnoddau i hybu gwybodaeth am y meysydd hyn i'r grŵp hwn. Fodd bynnag, hwn hefyd oedd y grŵp a oedd fwyaf tebygol o fod wedi gweithredu megis gwirfoddoli, rhoi a gweithgorau (yn lleol neu'n genedlaethol) i fonitro plâu a chlefydau planhigion/coed. Gellid gwneud rhagor o waith segmentu i archwilio hyn ymhellach. Roedd cyfranogwyr iau hefyd yn llai tebygol o ddweud bod ffactorau yn eu hatal rhag gweithredu i fod o fudd i iechyd planhigion/coed. Roedd ymatebwyr iau hefyd yn fwy tebygol o boeni am newid hinsawdd.

12.10 Ni effeithiodd gradd gymdeithasol na rhanbarth yr ymatebwyr ar yr atebion i raddau sylweddol; heblaw am faterion y gellid eu cysylltu'n uniongyrchol â chanlyniadau galwedigaeth ac incwm. Er enghraifft, roedd ymatebwyr a chanddynt swyddi gwaith llaw neu achlysurol, pensiynwyr gwladol a'r rhai a

oedd yn derbyn budd-daliadau y wladwriaeth yn fwy tebygol o adrodd bod diffyg adnoddau (arian, amser) yn eu rhwystro rhag gweithredu. Roedd ymatebwyr â swyddi rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol yn fwy tebygol o fynd ati i chwilio am wybodaeth neu o gofio gweld gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion a choed nag ymatebwyr mewn swyddi llaw neu swyddi achlysurol, ymatebwyr a oedd yn hawlio budd-daliadau y wladwriaeth neu bensiynwyr gwladol.

**Argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol**

12.11 Mae'r canlyniadau hyn yn gyfle i'w cymharu â chanfyddiadau arolwg yn Lloegr yn 2021[14] ar themâu tebyg, er mwyn nodi unrhyw debygrwydd a gwahaniaethau. Er mwyn adeiladu ar ganfyddiadau'r arolwg hwn, argymhellir archwilio'r canfyddiadau hyn yn ansoddol i ddeall rhai o'r rhesymau sydd y tu ôl i'r patrymau ymateb ac i brofi'r canfyddiadau ymhellach. Gallai grwpiau ffocws a gweithdai gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth o wahanol grwpiau nodweddiadol, yn enwedig oedran a rhywedd ddarparu rhagor o fanylion am safbwyntiau aelodau'r cyhoedd yng Nghymru a'r rhesymau dros hyn. Byddai hyn yn cefnogi'r nod o gyflawni canlyniad strategaeth bioddiogelwch "cymdeithas sy'n gwerthfawrogi planhigion" drwy ddeall lefelau ymwybyddiaeth a'r ffordd orau o hybu ymwybyddiaeth, gwybodaeth a'r gallu a'r cymhelliant i weithredu.

[14] Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr: Adroddiad Technegol—GOV.UK (www.gov.uk)

## 13. Adran gyfeirio


Strategaethau ac Asesu Risg

Pwyllgor Newid Hinsawdd (2021), Asesiad Annibynnol o Risg Hinsawdd y DU, Independent Assessment of UK Climate Risk - Climate Change Committee (theccc.org.uk)

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Comisiwn Coedwigaeth, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban (2023), Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr 2023–2028, Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion Prydain Fawr (2023 i 2028) - ar GOV.UK

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban (2023), Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain Fawr 2023 i 2030, Strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol | LLYW.CYMRU

Adolygu'r dystiolaeth bresennol

Bremner A. a Park K. (2007), Public attitudes to the management of invasive non-native species in Scotland, Biological Conservation, Cyfrol 139(3–4), DOI:10.1016/j.biocon.2007.07.005.

Capstick S.B., Pidgeon N.F., a Whitehead M.S. (2013). Public perceptions of climate change in Wales: Summary findings of a survey of the Welsh public conducted during November and December 2012. Consortiwm Newid Hinsawdd Cymru, Caerdydd.

Crawley S. , Coffé H. a Chapman R. (2019) Public opinion on climate change: Belief and concern, issue salience and support for government action, The British Journal of Politics and International Relations 2020, Cyfrol 22(1) 102–121, DOI:10.1177/1369148119888827

Fischer A. a van der Wal R. (2007), Invasive plant suppresses charismatic seabird – the construction of attitudes towards biodiversity management options, Biological Conservation, Cyfrol 135(2), DOI:10.1016/j.biocon.2006.10.026

Hartley B.L. et al. (2018), Exploring public views on marine litter in Europe: Perceived causes, consequences and pathways to change, Marine Pollution Bulletin, 133, Tudalennau 945–955, ISSN 0025-326X, DOI:10.1016/j.marpolbul.2018.05.061.

McKinley E. et al. (2020) Forgotten landscapes: Public attitudes and perceptions of coastal saltmarshes, Ocean & Coastal Management, 187, ISSN 0964-5691, DOI:10.1016/j.ocecoaman.2020.105117.

GIG Cymru a Phrifysgol Bangor (2022) Newid Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Barn y Cyhoedd [ar gael yn: Newid Hinsawdd ac Iechyd yng Nghymru: Barn y Cyhoedd - phwwhocc.co.uk]

SYG (2021) Three-quarters of adults in Great Britain worry about climate change, 5 Tachwedd

Poortinga W. a Darnton A.(2016) Segmenting for sustainability: The development of a sustainability segmentation model from a Welsh sample, Journal of Environmental Psychology, 45, ISSN 0272-4944, DOI:10.1016/j.jenvp.2016.01.009

Poortinga W at al. (2011) Uncertain climate: An investigation into public scepticism about anthropogenic climate change, Global Environmental Change, 21:3, ISSN 0959-3780, DOI:10.1016/j.gloenvcha.2011.03.001.

The Chatham House—YouGov Survey (2011) British Attitudes Towards the UK's International Priorities.

## Atodiad A—B02210_3 - Omnibws Cymru Mawrth

**Set Cwestiynau – Iechyd Planhigion a Rhywogaethau Estron Goresgynnol yng Nghymru TERFYNOL 18.02.22**

**<u>Adran 1: Iechyd Planhigion a Bioamrywiaeth</u>**

***Mae planhigion a choed o'n cwmpas ym mhobman. Gallant gael eu heffeithio gan blâu a chlefydau sydd nid yn unig yn effeithio ar eu hiechyd ond a allai hefyd arwain at eu marwolaeth. Gall plâu a chlefydau hefyd arwain at leihau bioamrywiaeth. Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd sydd ar y ddaear. Mae'n cynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, eu digonedd ac amrywiaeth genetig.***

***Nod yr adran hon o'r arolwg yw ymchwilio i'r canlynol:***

- ***ymwybyddiaeth pobl yng Nghymru o sut mae planhigion o fudd i bobl, yr amgylchedd a'r economi;***
- ***ymwybyddiaeth pobl yng Nghymru ynghylch sut i helpu i ddiogelu iechyd planhigion a bioamrywiaeth; a***
- ***deall pa gamau y byddai pobl yng Nghymru yn eu cymryd pe byddent yn pryderu am blâu a chlefydau.***

**C1. Pe bai llawer o blanhigion/coed YN EICH ARDAL LEOL yn marw neu'n gorfod cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau, sut fyddech chi'n teimlo am yr effeithiau posibl canlynol?**

GRADDFA LIKERT [1 (ddim yn bwysig o gwbl) – 7 (mae'n bwysig iawn) / Ddim yn gwybod]

a. Colli carbon sydd wedi'i ddal / rhyddhau carbon o blanhigion/coed sy'n marw, sy'n golygu y bydd mwy o garbon deuocsid ($CO_2$) yn mynd i mewn i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd
b. Colli cysgod
c. Colli lliniaru llifogydd, sy'n golygu y byddai mwy o berygl o lifogydd i gartrefi ac eiddo
d. Golygfeydd llai deniadol / golwg y dirwedd yn newid
e. Colli cynhyrchiant bwyd
f. Colli coedwigaeth / cynhyrchiant pren
g. Colli cyfleoedd hamdden
h. Colli bioamrywiaeth / natur
i. Dirywiad mewn ansawdd aer / mwy o lygredd aer

**C2. Pe bai llawer o blanhigion/coed YN GENEDLAETHOL LEDLED CYMRU, yn marw neu'n gorfod cael eu symud oherwydd plâu a chlefydau sut fyddech chi'n teimlo am yr effeithiau posibl canlynol?**

GRADDFA LIKERT [1 (ddim yn bwysig o gwbl) – 7 (mae'n bwysig iawn) / Ddim yn gwybod]

a. Colli carbon sydd wedi'i ddal / rhyddhau carbon o blanhigion/coed sy'n marw, sy'n golygu y bydd mwy o garbon deuocsid ($CO_2$) yn mynd i mewn i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd
b. Colli cysgod
c. Colli lliniaru llifogydd, sy'n golygu y byddai mwy o berygl o lifogydd i gartrefi ac eiddo
d. Golygfeydd llai deniadol / golwg y dirwedd yn newid
e. Colli cynhyrchiant bwyd
f. Colli coedwigaeth / cynhyrchiant pren
g. Colli cyfleoedd hamdden
h. Colli bioamrywiaeth / natur
i. Dirywiad mewn ansawdd aer / mwy o lygredd aer

**C3. Pa mor bwysig ydych chi'n teimlo yw cyflwyno plâu a chlefydau planhigion/coed?**

GRADDFA LIKERT [1 (ddim yn bwysig o gwbl) – 7 (eithriadol o bwysig) / Ddim yn gwybod]

a. I chi'n bersonol
b. I'ch cymuned leol
c. I gymdeithas ehangach Cymru
d. Yn fyd-eang

**C4. Pa mor bwysig yw hi i chi warchod planhigion/coed yng Nghymru rhag plâu a chlefydau?**

GRADDFA LIKERT [1 (ddim yn bwysig o gwbl) – 7 (eithriadol o bwysig)]

**C5. Faint o risg i iechyd planhigion/coed yng Nghymru yn eich barn chi sy'n dod o'r canlynol?**

GRADDFA LIKERT [1 (dim risg o gwbl) – 7 (risg uchel iawn) / Ddim yn gwybod] AR GYFER POB UN

a. Mewnforion masnach
b. Mewnforion personol (e.e. pobl sy'n mynd ar eu gwyliau ac yn dod â phlanhigion/coeden yn ôl o daith dramor)
c. Newid yn yr hinsawdd
d. Ymwybyddiaeth wael o blâu a chlefydau planhigion/coed
e. Lefelau isel o wybodaeth am gamau gweithredu i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau planhigion/coed
f. Diffyg cymhelliant i sefydliadau ac unigolion fabwysiadu ymddygiad ac arferion i fynd i'r afael â phlâu a chlefydau planhigion/coed
g. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu ar-lein gan fanwerthwyr domestig
h. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu ar-lein gan fanwerthwyr rhyngwladol
i. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu mewn siop gan fanwerthwyr arbenigol (e.e. canolfannau garddio, planhigfeydd)
j. Planhigion/coed yn cael eu gwerthu mewn siop gan fanwerthwyr nad ydynt yn arbenigwyr (e.e. archfarchnadoedd, siopau DIY)

**C6. Pa mor aml (os o gwbl) mae'r canlynol yn berthnasol i chi?**

DEWISWCH UN O [bob amser neu pryd bynnag y byddaf yn cael y cyfle / yn aml / weithiau / anaml / byth / ddim yn gwybod] AR GYFER POB UN

a. Rwy'n cymryd diddordeb yn iechyd planhigion/coed yn fy nghartref/gardd, a pha mor dda maen nhw'n tyfu
b. Rwy'n gwirio planhigion/coed yn fy nghartref/gardd am arwyddion o blâu a chlefydau, a byddaf yn ceisio trin unrhyw broblemau rwy'n dod o hyd iddynt
c. Rwy'n gallu adnabod planhigyn/coeden sydd wedi'i heffeithio gan blâu neu glefyd
d. Rwyf wedi adrodd am blanhigyn/coeden a allai, yn fy marn i, fod â phla neu glefyd
e. Rwy'n glanhau pridd oddi ar fy esgidiau ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd o goetir (e.e. parciau, coedwigoedd ac ati)
f. Rwy'n rhoi arian i grwpiau sy'n pryderu am ddiogelu'r DU rhag plâu a chlefydau planhigion/coed

**C7a. Ydych chi erioed wedi chwilio neu ofyn am wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed?**

Do

Na

Ddim yn gwybod

**C7b. Ydych chi erioed yn cofio gweld, darllen neu glywed unrhyw beth am blâu a chlefydau planhigion/coed?**

Ydw

Na

Ddim yn gwybod

**C7c. Ydych chi erioed wedi gweithio gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i fonitro am blâu a chlefydau planhigion/coed?**

Do

Na

Ddim yn gwybod

**OS YN YMATEB C7 = "Do" AR GYFER NAILL AI C7a NEU C7b, EWCH YMLAEN I C8;**

**FEL ARALL, NEIDIWCH I C9**

**C8. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r canlynol?**

GRADDFA LIKERT [1 (Anghytuno'n gryf) – 7 (Cytuno'n gryf) / Ddim yn gwybod] AR GYFER POB UN

a. Mae'n hawdd dod o hyd i wybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed
b. Mae'n hawdd deall gwybodaeth am blâu a chlefydau planhigion/coed

**C9. I ba raddau mae'r canlynol yn eich atal rhag cymryd camau fyddai o fudd i iechyd planhigion/coed?**

GRADDFA LIKERT [1 (Nid yw'n fy atal o gwbl) – 7 (yn fy atal yn fawr) / Ddim yn gwybod]

a. Dydw i ddim yn gwybod yn union pa gamau i'w cymryd/ nid oes gen i'r wybodaeth i weithredu
b. Alla i ddim helpu'n gorfforol
c. Does gen i ddim yr adnoddau (e.e. arian) i wneud yr hyn sydd ei angen

d. Does gen i ddim yr awdurdod i wneud yr hyn sydd ei angen
e. Dydw i ddim yn poeni / nid yw plâu a chlefydau planhigion yn cael unrhyw effaith wirioneddol arnaf fi
f. Does gen i ddim yr amser
g. Nid fy nghyfrifoldeb i yw gwneud hynny
h. Nid oes unrhyw bwynt—nid yw fy ngweithredoedd yn cael unrhyw effaith os nad yw'r rhan fwyaf o bobl eraill hefyd yn cymryd rhan

## Adran 2: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

***Planhigion neu anifeiliaid sy'n dod o'r tu allan i Gymru yw rhywogaethau estron goresgynnol, sydd wedi'u cyflwyno i Gymru gan weithredoedd dynol. Gallant ledaenu ac achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'r ffordd rydyn ni'n byw. Gall dilyn arferion bioddiogelwch da leihau'r risg ohonyn nhw'n lledaenu. Nod mesurau bioddiogelwch yw lleihau'r risg o gyflwyno neu ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol (ac organebau niweidiol eraill fel clefydau) yn y gwyllt.***

***Nod y rhan hon o'r arolwg yw ymchwilio i:***

- ***ymwybyddiaeth pobl yng Nghymru o effeithiau rhywogaethau estron goresgynnol***
- ***ymwybyddiaeth pobl yng Nghymru am fesurau bioddiogelwch.***

**C10. Sut fyddech chi'n teimlo am yr effeithiau posibl canlynol ar rywogaethau estron goresgynnol yn achosi niwed yn EICH ARDAL LEOL?**

GRADDFA LIKERT [1 (ddim yn bwysig o gwbl) – 7 (mae'n bwysig iawn) / Ddim yn gwybod]

a. Risg uwch o lifogydd oherwydd fod dyfrffyrdd wedi'u rhwystro gan blanhigion goresgynnol neu lannau afonydd heb lystyfiant
b. Golygfeydd llai deniadol / golwg y dirwedd wedi newid oherwydd fod planhigion goresgynnol trechol yn disodli rhywogaethau cynhenid cymysg
c. Colli cynhyrchiant bwyd oherwydd rhywogaethau plâu goresgynnol
d. Colli coedwigaeth / cynhyrchiant pren oherwydd rhywogaethau estron goresgynnol
e. Colli cyfleoedd hamdden oherwydd colli mynediad i lannau afonydd / dyfrffyrdd / coetiroedd / gwlad agored
f. Colli bioamrywiaeth / natur oherwydd fod rhywogaethau goresgynnol trechol yn rhagori ar rywogaethau cynhenid
g. Colli bioamrywiaeth / natur oherwydd fod rhywogaethau goresgynnol yn cyflwyno clefydau newydd

**C11. Faint ydych chi'n meddwl y byddai pob un o'r mesurau bioddiogelwch canlynol yn helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol?**

GRADDFA LIKERT [1 (ni fyddai'n helpu o gwbl) – 7 (byddai'n helpu'n fawr iawn) / Ddim yn gwybod]

a. Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd am rywogaethau estron goresgynnol, risgiau ac effeithiau drwy daflenni gwybodaeth, canllawiau ar-lein ac ati.
b. Ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd am offer glanhau, esgidiau, cerbydau, offer pysgota i helpu i atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag lledaenu
c. Rhoi gwybod am weld rhywogaethau estron goresgynnol e.e. ar apiau ffonau symudol
d. Hyrwyddo'r defnydd o rywogaethau cynhenid amgen mewn garddio, parciau cyhoeddus, cyfleusterau hamdden ac ati
e. Gosod arwyddion, canllawiau neu offer glanhau mewn mannau cyhoeddus lle mae risg o ledu rhywogaethau estron goresgynnol
f. Canllawiau ar sut i reoli neu gael gwared ar rywogaethau goresgynnol

**C12. Pa mor aml (os o gwbl) mae'r canlynol yn berthnasol i chi?**

DEWISWCH UN O [bob amser neu pryd bynnag y byddaf yn cael y cyfle / yn aml / weithiau / anaml / byth / ddim yn gwybod] AR GYFER POB UN

a. Rwy'n gallu nodi rhywogaethau estron goresgynnol
b. Rwy'n rhoi gwybod am bresenoldeb rhywogaethau estron goresgynnol
c. Rwy'n gwybod pa gamau sylfaenol i'w cymryd i helpu i leihau lledaeniad rhywogaethau estron goresgynnol yn fy ngardd / ardal leol e.e.: glanhau fy esgidiau ar ôl mynd am dro o amgylch ardaloedd o goetir
d. Rwy'n rhoi arian i grwpiau sy'n ymwneud â rheoli rhywogaethau estron goresgynnol
e. Rwy'n gwirfoddoli gyda grwpiau (lleol neu genedlaethol) i helpu i reoli rhywogaethau estron goresgynnol